Cyngor Sir Ceredigion Gofal Cymdeithasol

# Tîm Plant Anabl Ceredigion

**…yn gofalu i wneud gwahaniaeth**

# Print Bras neu fformatau eraill ar gael drwy ofyn amdanynt

**ffoniwch**



01545 574000



**neu E-bostiwch**
**cyswllt-socservs@ceredigion.gov.uk**

## Oriau Swyddfa Porth Gofal

| | |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Iau: | 8.45 y.b. – 5.00 y.p. |
| Dydd Gwener: | 8.45 y.b. – 4.30 y.p. |

**Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau a ddarparir gan Gyngor Sir Ceredigion ar ein gwefan:**
**www.ceredigion.gov.uk**
**a/neu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda :**
**www.hywelddalhb.wales.nhs.uk**

Adolygwyd Rhagfyr 2019

# Tîm Plant Anabl CEREDIGION

## Partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol Ceredigion, Gwasanaethau Dysgu Ceredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

### Beth ydym ni'n ei wneud?

Rôl y Tîm Plant Anabl yw cydlynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed (a'u teuluoedd) sydd ag anableddau dysgu, corfforol neu synhwyraidd sy'n peri anawsterau mawr iddynt yn eu bywydau bob dydd.

Mae'n bosibl y bydd amrywiol Wasanaethau ar gael yn ddibynnol ar anghenion eich plentyn. Byddwn yn medru:

- Darparu gwasanaeth gweithiwr allweddol ar gyfer eich plentyn. Unigolyn penodol o fewn y Tîm yw'r gweithiwr allweddol sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i'r teulu, gan nodi anghenion a rhoi sylw iddynt. Bydd hefyd yn medru sicrhau bod gan y teulu fynediad at wasanaethau gan gydlynu hyn. Yn ogystal, bydd yn sicrhau bod y modd y cyfeirir y teulu at amrywiol wasanaethau a gynigir gan wahanol asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn cael ei gydlynu.

- Darparu cymorth adeg diagnosis eich plentyn
- Nodi anghenion eich plentyn trwy gynnal asesiad. Caiff hyn ei wneud gyda'r teulu.
- Cydlynu cynllun gofal ar gyfer eich plentyn
- Cyfeirio at Wasanaethau y gallai fod eu hangen ar eich plentyn

- Gyda’ch caniatâd chi, rhannu gwybodaeth â’r gweithwyr proffesiynol eraill sy’n ymwneud â’ch plentyn, i’n cynorthwyo ni i weithio gyda’n gilydd
- Ymgynghori â’ch plentyn i ganfod eu barn / teimladau
- Siarad â chi am ddyfodol eich plentyn
- Trafod unrhyw bryderon a darparu cymorth os oes angen
- Ysgrifennu llythyrau o gefnogaeth, eich cynorthwyo chi â ffurflenni a mynd i gyfarfodydd gyda chi, os ydych chi’n dymuno
- Darparu Gwasanaeth Seibiannau Byr
- Darparu Asesiad Therapi Galwedigaethol o ran gweithgareddau yn eu bywydau bob dydd ac addasiadau amgylcheddol
- Hyrwyddo sgiliau hunangymorth
- Eich cynghori am unrhyw anghenion nyrsio/iechyd sylweddol
- Darparu Gweithiwr Prosiect i weithio’n uniongyrchol â phobl ifanc
- Darparu cymorth i unigolion a theuluoedd sy’n byw gydag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig
- Gweithiwr Prosiect / Datblygu Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig – gweithio yn yr ysgol, y cartref a’r gymuned leol gan ddatblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ynghylch Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig
- Darparu gwybodaeth ynghylch y canlynol:
    - Anabledd eich plentyn
    - Grwpiau hunangymorth

- Sefydliadau gwirfoddol sy’n medru helpu
- Budd-daliadau
- Cynlluniau chwarae
- Gwasanaeth Seibiannau Byr/Eistedd
- Proses Addysgol
- Atgyfeiriadau i sefydliadau eraill
- Grŵp Gofalwyr Ifanc / Grŵp Brodyr a Chwiorydd
- Taliadau Uniongyrchol
- Asesiad Gofalwyr
- Cofrestr Plant Anabl
- Darparu asesiadau coluddyn a phledren
- Darparu cefnogaeth cysgu, toilet ac ymyrraeth cynnar
- Darparu gweithdai hyforddi a diwrnodau llesgofalwyr

## Pwy ydym ni?

Tîm amlasiantaeth ydym ni a sefydlwyd mewn partneriaeth rhwng y Gofal Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg. Mae’r tîm yn cynnwys Rheolwr, Uwch Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol, Uwch Ymarferydd Iechyd, Ymwelwyr Iechyd Arbenigol, Gweithwyr Cymdeithasol Arbenigol, Arbenigwr Addysgol, Nyrs Plant Gymunedol, Therapydd Galwedigaethol, Gweithiwr Cymdeithasol Seibiannau Byr, Gweithiwr Prosiect, Gweithredwr Cymdeithasol Awtistiaeth, Gweithiwr Prosiect / Gweithiwr Datblygu Awtistiaeth, a dau Gynorthwyydd Gweinyddol a Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd

Mae nifer o aelodau'r tîm yn siarad Cymraeg, felly mae croeso cynnes i chi gysylltu â ni os ydych chi am gael gwasanaeth Cymraeg.

Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol, Ymwelwyr Iechyd, Arbenigwr Addysgol a'r Nyrs Plant Gymunedol hefyd yn Weithwyr Allweddol. Ar ôl i chi gael gwybod pwy fydd eich Gweithiwr Allweddol, ef neu hi fydd y pwynt cyswllt i chi a'ch plentyn. Gall ef/hi ymweld â chi yn eich cartref a gallwch hefyd gysylltu â'r unigolyn hwnnw yn y Swyddfa.

## Penderfynu pa Gefnogaeth sydd ei hangen arnoch (Asesiad o Anghenion)

Cyn y gallwn ni gynnig cymorth i chi, mae angen inni ddarganfod yn union pa fath o gymorth sydd ei angen arnoch. Rydym yn gwneud hyn trwy'r broses asesu.

Os oes gennych blentyn sydd ag anabledd o unrhyw fath, mae gennych yr hawl i gael anghenion eich plentyn wedi'u hasesu. Er mwyn ein cynorthwyo i gael y darlun cliriaf o anghenion eich plentyn, mae'n bosibl y bydd angen inni ymgynghori ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'ch plentyn.

Unwaith y byddwn ni'n gwybod pa Wasanaethau Cymorth fydd eu hangen ar eich plentyn, byddwn yn cytuno ar Gynllun Gofal a Chefnogaeth ac yn dechrau ar y broses atgyfeirio ac yn cydlynu'r modd y darperir y Gwasanaethau hynny.

## Pwy sy’n monitro ein gwaith?

Mae’r Tîm Rheoli Plant Anabl yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gofal Cymdeithasol, Addysg a chynrychiolydd o blith y rhieni. Rôl y grŵp hwn yw monitro cynllun busnes y Tîm, gan symud datblygiadau yn eu blaen.

## Sut wyf yn cael cymorth oddi wrth y Tîm Plant Anabl?

Os oes gennych blentyn anabl a’ch bod yn dymuno gwneud cais am asesu anghenion eich plentyn, ffoniwch Porth Gofal ar:



**01545 574000**

8.45 y.b. - 5.00 y.p. Dydd Llun i Dydd Iau
8.45 y.b. - 4.30 y.p. Dydd Gwener

Gall yr Ymholiad Cyswllt ddod yn uniongyrchol oddi wrthych chi fel rhieni neu trwy weithwyr proffesiynol, e.e. Therapydd Lleferydd, Ymwelwyr Iechyd, Gweithwyr Cymdeithasol, Pediatrydd, Meddygon Teulu, Nyrsys Ysgol ac Athrawon.

# Cofrestr Plant Anabl

Mae Deddf Plant 1989 yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol o ran agor a chadw cofrestr ynghylch plant/pobl ifanc anabl. Gall y gofrestr ein helpu ni i wneud y canlynol:

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwasanaethau

- Cynllunio gwasanaethau mewn ffordd gydlynol

Caiff y gofrestr ei chadw ar gyfrifiadur a chyfyngir ar fynediad i'r wybodaeth hon.

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn llwyr gefnogi egwyddor cydraddoldeb ac mae'n cydnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd manteisio teg ac mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.**

## Gwasanaeth Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth ar gael a lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i rywun eich cynorthwyo i gyflwyno eich barn wrth i chi ymdrin â ni os nad yw'n bosib i chi wneud hynny eich hun ac os nad oes gennych deulu neu ffrindiau i'ch helpu.

**Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Ceredigion (CIPA)**
Gall y gwasanaeth hwn eich cynorthwyo chi (neu eich gofalwr) os ydych chi dros 18 oed, yn byw yng Ngheredigion a'ch bod yn derbyn asesiad neu adolygiad ar hyn o bryd o'ch anghenion gofal a chymorth neu fod gennych bryder o ran diogelu.

**0800 206 1387**

Bydd **Eiriolaeth Gorllewin Cymru'n** darparu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pobl yn y gymuned ac ar gyfer cleifion anffurfiol yn Ward Morlais, Ysbyty Glangwilli, Caerfyrddin.

**01437 762935**

www.advocacywestwales.org.uk

admin@advocacywestwales.org.uk

Mae **TGP Cymru** yn darparu help i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu parchu a'u lleisiau eu clywed. Gallant ddarparu gwybodaeth, eiriolaeth, cynrychiolaeth, cyngor a chefnogaeth.

**0808 1682599**

**01545 571865**

midandwestwales@tgpcymru.org.uk

## Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu eich gwybodaeth i unrhyw un nad ydynt yn ymwneud â'ch gofal heb eich caniatâd (oni bai bod yn rhaid i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith neu os ceir amgylchiadau arbennig, fel eich diogelwch a/neu ddiogelwch eraill).

## Argyfyngau

Os bydd angen help arnoch ar frys y tu allan i oriau agor y Porth Gofal (fel y nodwyd tu fewn clawr y daflen hon), cysylltwch â'n Tîm Argyfwng Tu Allan i Oriau Swyddfa ar:

**0300 4563554**

## Cyflwyniadau/Cwynion/Sylwadau

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw rai o'n gwasanaethau, neu â'r ffordd yr ydych wedi cael eich trin, dylech drafod hyn gyda Rheolwr y Tîm y mae gennych gyswllt ag ef yn gyntaf. Mawr obeithiwn y bydd modd datrys y broblem ar yr adeg hon.

Os nad ydych yn fodlon o hyd fodd bynnag, gallwch fynd â'r mater hwn ymhellach trwy wneud cwyn ffurfiol, gan bod gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion weithdrefn gwyno.

Os ydych yn credu ein bod wedi gwneud rhywbeth yn dda, gallwch ddweud hynny wrthym hefyd.

Gofynnwch i'r **Gofal Cymdeithasol** am daflen 'A ydym yn llygad ein lle? A oes gennych unrhyw Sylwadau, Cwynion neu Ganmoliaeth?'

Mae taflenni eraill yn rhoi manylion am y gwahanol wasanaethau a gynigir gan Gofal Cymdeithasol Ceredigion ar gael drwy ofyn amdanynt o'r Porth Gofal. Os ydych am ragor o wybodaeth, ffoniwch ar:

**01545 574000**

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch cynnwys a chynllun y daflen hon, yn ogystal â'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn. Mae'ch safbwyntiau chi yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro a gwella'r ansawdd yn ôl yr angen. A fyddech gystal â mynd ati i lenwi'r canlynol:

Enw: ……………………………………………………………………….

Cyfeiriad: ………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………...

…………………………………………………………………………...

Rhif Ffôn: ……………………………… Dyddiad: ………………………

Cafwyd taflen gan: …………………………………………………….……

Fy nghanmoliaeth neu fy nghwyn:

………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………..

………………………………………………………………………..

(A fyddech gystal â pharhau ar dudalen ar wahân os bydd angen mwy o le arnoch)



Dylech anfon y dudalen hon at:

Porth Gofal
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UE

**Diolch am eich sylwadau**